# COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

# Y CABINET

# DYDD IAU, 19 IONAWR 2023

**Aelodau'r Cabinet:**

Cynghorwyr:: S.K.Hunt (Cadeirydd), S.A.Knoyle, N.Jenkins, D.M.Peters, J.Hurley, A.Llewelyn, W.F.Griffiths a/ac S.Jones

**Swyddogion yn bresennol:**

N.Pearce, C.Griffiths, K.Jones, A.Jarrett, M.Shaw, A.J.Thomas,C.Furlow-Harris, A.Thomas, Ms.L.Willis, A.James a/ac J.Woodman-Ralph

**Gwahoddedigion y Cabinet:**
Cynghorydd P.Rogers (Cadeirydd Craffu)
Cynghorydd C.James (Is-gadeirydd Craffu)

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

   Cytunwyd i benodi'r Cynghorydd S K Hunt yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

   Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

3. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

   Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

4. **CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD**

   Ni dderbyniwyd cwestiynau gan y cyhoedd.

5. **CYNIGION CYLLIDEBOL 2023/2024 AR GYFER YMGYNGHORI**

Roedd Aelodau'n gefnogol o'r cais a wnaed gan y pwyllgor craffu a gynhaliwyd cyn y cyfarfod hwn. I ddarparu manylion ychwanegol i aelodau ar y cynigion cyllidebol

Cadarnhaodd swyddogion fod fideo a thaflenni'n cael eu paratoi ar hyn o bryd. Bydd y rhain yn egluro'r hyn y mae'r cyngor yn ei ddarparu a bydd yn rhoi manylion pellach mewn fersiwn hawdd ei darllen. Gellir trefnu bod yn rhain ar gael i'r Aelodau.

Yn ogystal, bydd pob Cyfarwyddwr yn darparu manylion pellach ar y gyllideb mewn perthynas â'u gwasanaethau i'w trafod yn y sesiynau pwyllgor craffu perthnasol sydd wedi'u trefnu'n benodol i drafod y gyllideb.

Hefyd, os bydd gan Aelodau gwestiynau neu mae angen eglurder arnynt ynghylch y gyllideb, cysylltwch â'r Prif Swyddog Cyllid neu'r Prif Weithredwr. Roedd yn bwysig fod gan yr Aelodau'r holl eglurhad sydd ei angen yn barod ar gyfer ystyried hyn yng nghyfarfod y Cabinet a'r cyngor ar ddechrau mis Mawrth.

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig:

caiff y Cynigion Cyllidebol Drafft ar gyfer 2023/2024 eu cymeradwyo ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus o 19 Ionawr i 10 Chwefror 2023.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Cyflawni'r gofynion statudol i ymgynghori ar y cynigion cyllidebol drafft ar gyfer 2023/2024.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar unwaith gyda chaniatâd y Cadeirydd Craffu.

6. **CRONFA FFYNIANT GYFFREDIN Y DU - CYMERADWYO PROSIECTAU ANGORI STRATEGOL (YN EITHRIEDIG O DAN BARAGRAFF 14.)**

**Penderfyniadau:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r Asesiad Effaith Integredig:

1. Fod pum prosiect 'angori' strategol Castell-nedd Port Talbot, fel y nodwyd yn yr adroddiad a gylchredwyd, yn cael eu cymeradwyo a'u hariannu gan ddyraniad Castell-nedd Port Talbot o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin. Bod y gwaith o gyflwyno'r prosiectau 'angori' strategol hyn yn cychwyn cyn bod y Cytundeb Lefel Gwasanaeth Rhwng Awdurdodau Lleol yn cael ei gwblhau.

2. Bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Cyllid, yr Arweinydd a'r Aelodau Cabinet perthnasol i:

    a) Gytuno ar feini prawf trydydd parti a chymeradwyo dyfarniadau grant trydydd parti drwy gynlluniau grant Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU gydag adroddiadau rheolaidd yn cael eu rhoi i'r Cabinet:

    b) Cytuno ar unrhyw newidiadau angenrheidiol i brosiectau i ganiatáu hyblygrwydd i addasu i heriau a chyfleoedd, gydag adroddiadau rheolaidd yn cael eu rhoi i'r Cabinet:

    c) Cytuno i lansio galwad agored am brosiectau dan y blaenoriaethau Sgiliau a Lluosi a thargedu'r meysydd hynny o'r Cynllun Buddsoddi nad ydynt yn cael eu cyflawni drwy'r prosiectau 'angori' strategol (fel y nodwyd ar Dudalen 61, Eitem 4 yr Agenda, adran 'Rhoi ar Waith' yr adroddiad hwn) gydag adroddiadau rheolaidd yn cael eu rhoi i'r Cabinet:

**Rhesymau dros y Penderfyniadau:**

Galluogi Castell-nedd Port Talbot i roi Cynllun Gweithredu Cronfa Ffyniant Gyffredin y Du ar waith a dechrau cyflwyno prosiectau.

**Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:**

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn tri diwrnod sy'n dod i ben am 9am ddydd Llun, 23 Ionawr 2023.

7. **EITEMAU BRYS**

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

8. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD - GWAHARDD Y CYHOEDD**

Ni phenderfynodd yr Aelodau fynd i sesiwn breifat gan fod gan yr Aelodau gwestiynau'n ymwneud â'r wybodaeth breifat a gynhwyswyd yn yr adroddiad.

**CADEIRYDD**